DAVID BERGER

CADW'R COF YN FYW
Diwrnod Cofio'r Holocost 2015

YMDDIRIEDOLAETH DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST

Ganwyd David Berger yn 1922 yn Przemysl, de-ddwyrain Gwlad Pwyl. Gadawodd ei gartref pan heidiodd yr Almaenwyr yno yn 1939 ac fe'i saethwyd yn farw yn Filniws, Lithwania ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 1941 yn 19 oed.

'Os bydd rhywbeth yn digwydd, rwy' am i rywun fodoli fydd yn cofio bod rhywun o'r enw D. Berger wedi byw rhywdro. Bydd hyn yn gwneud pethau'n haws i mi ar yr adegau anodd.'

Ar 2 Mawrth 1941, anfonodd David lythyr a cherdyn post o Filniws at ei ffrind Elsa, oedd wedi gadael Gwlad Pwyl yn 1938 i fynd i Balestina. Defnyddiodd David gerdyn post i ddweud hwyl fawr wrth Elsa, gan ei fod yn credu'n gywir na fyddai'n byw. Ysgrifennodd ati mai'r 'peth gwaethaf yw diffyg gwybodaeth am bryd y bydda i'n dod nôl ac yn dy weld'.

Fe'i saethwyd yn farw yn Filniws, Lithwania yn 1941.

Nid ydym yn gwybod mwy amdano; ond trwy ei stori bywyd byr, rydym yn gallu anrhydeddu ei ddymuniadau a chofio bod "rhywun o'r enw David Berger wedi byw rhywdro".

Last Letters from the Holocaust, wedi'u golygu gan Walter Zwi Bacharach, Yad Vashem a Devora Publishing Company, 2004, tud.196

Gyda diolch i: 1953-2013 60 יד ושם Yad Vashem